



## Cwestiynau Cyffredin

Mae'r canlynol yn gwestiynau cyffredin a fydd efallai yn ateb eich ymholiadau.

### **Pam cael Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru?**

Daeth y Rhwydwaith i fodolaeth yn dilyn Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2020. Roedd cyflwyniad yng nghynhadledd y Rhaglen gan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel yr Alban, a oedd yn darparu cefndir a model ar gyfer dull newydd o weithio yn y maes diogelwch cymunedol. Adeiladwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ar sylfaen o wybodaeth a thystiolaeth a ddarparwyd gan yr Alban. Mae'r Rhwydwaith yn parhau i weithio'n agos gyda'n chwaer-sefydliad yn yr Alban.

### **Sut caiff y Rhwydwaith ei ariannu?**

Yn ddiweddar, mae'r Rhwydwaith yn cael ei ariannu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Plismona yng Nghymru (pedwar Prif Gwnstabl a Chomisïynwyr Heddlu a Throsedd) a Llywodraeth Cymru. Y nod yw bod y Rhwydwaith yn annibynnol ac yn gynaliadwy drwy fodel aelodaeth, gan ddatblygu ffrydiau incwm eraill erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

### **Beth yw'r gwahaniaeth rhwng diogelwch cymunedol a diogelu?**

Mae nifer o bethau'n gyffredin rhwng diogelwch cymunedol a diogelu, fel y dangosir, gyda diogelu'n un o'r pynciau y mae'r wefan yn canolbwyntio arno. Ond mae gwahanol elfennau; deddfwriaeth er enghraifft. Tra bo pawb yn cyfranogi mewn diogelwch cymunedol neu'n ddioddefwr os yw pethau'n mynd o'i le, mae diogelu'n cynnwys amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o wahanol fathau o gamdriniaeth. Mae'n rhaid ystyried diogelu o hyd, ac mae'r ddyletswydd i adrodd yn gymwys ar draws diogelwch cymunedol, fel mewn gwasanaethau eraill.

Efallai nid yw oedolyn sydd wedi goroesi cam-drin domestig yn oedolyn mewn perygl, mewn perthynas â diogelu, serch hynny, os ydyn nhw'n datgelu rhywbeth am eu plentyn sy'n awgrymu bod y plentyn hwnnw mewn perygl, yna dylid llunio adroddiad mewn perthynas â'r plentyn.

Mae sawl digwyddiad lle mae sefyllfa'n disgyn dan ddiogelu a diogelwch cymunedol. Er enghraifft, meddiannu cartrefi pobl ddi-amddiffyn i werthu cyffuriau (camfanteisio troseddol) sy'n aml yn cynnwys oedolyn mewn perygl, wedi'i gplysu â gweithgareddau troseddol.



Mae'r berthynas gweithio agos rhwng y ddau yn cael ei arddangos yn y cyfeiriadur drwy'r dolenni i dudalennau diogelwch cymunedol ar wefannau awdurdodau lleol, yn ogystal â'r tudalennau gwe diogelu.

### **Pam nad yw diogelwch cymunedol yn ymwneud ag atal troseddu?**

Mae Cymru'n canolbwyntio'n gryf ar atal, mae'n cael ei gynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae beth sy'n gwneud i bobl deimlo'n ddiogel mewn cymunedau'n cwmpasu nifer o elfennau gwahanol; mae'n cynnwys teithio a gweithgareddau (Diogelwch y Cyhoedd); atal tân a diogelwch yn y cartref; a gall, ac fe ddylai, gynnwys pawb. Mae rhai elfennau penodol sy'n ymdrin â throsedd ac atal troseddu, ond i eraill, mae'n cynnwys gwella'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, ac yn galluogi pobl i fynd i'r afael â gweithgareddau dyddiol yn ddiogel, heb gael niwed.

### **Rydw i'n pryderu am fy hun/rhywun arall, beth alla i'w wneud?**

O dan bob pwnc, mae eu hisbynciau, ac rydym wedi cynnwys gwybodaeth ar gymorth a chefnogaeth sy'n addas ar gyfer pob pwnc penodol.

Os ydych chi, neu rywun arall mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr heddlu ar 999.

### **Mae gen i syniad am Bodlediad, sut ydw i'n cymryd rhan?**

Os hoffwch chi gymryd rhan mewn podlediad yn y dyfodol, anfonwch neges e-bost at [safercommunities@wlga.gov.uk](mailto:safercommunities@wlga.gov.uk), wedi'i labelu'n glir gyda 'Podlediad' fel testun at sylw'r Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau.

### **Rydw i eisiau gwneud cwyn, sut ydw i'n gwneud hynny?**

Os ydych chi'n dymuno cwyno am Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, anfonwch e-bost at [cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk](mailto:cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk) at sylw Pennaeth y Rhwydwaith. Os yw'r gŵyn yn ymwneud â Phennaeth y Rhwydwaith, cyfeiriwch y neges at sylw y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

Os oes gennych gŵyn am bartner megis yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol, ewch i'w gwefan a dilynwch eu gweithdrefn gwynion.